# 27. Ysgolion Bro

Mae'r adran hon yn trafod:

- Beth yw "Ysgol Fro"?
- Beth sy'n digwydd mewn Ysgol Fro?
- A fydd angen i ysgolion bro weithio mewn ffordd wahanol?
- Pwy sy'n gallu sefydlu rhaglenni?
- Trefniadau diogelu;
- Pa fathau o wasanaethau y gallai ysgol eu darparu?
- Canolfannau Plant Integredig;
- Cofrestru ac arolygu cyfleusterau gofal plant;
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 a Gwasanaethau Estynedig.

### Cefndir

1. Mae ysgolion yn rhan bwysig a hanfodol o'r gymuned. Maent nid yn unig yn darparu addysg i ddisgyblion ac yn creu ysbryd cymuned ymysg rhieni, ond hefyd yn cynnig cyfle a chyfleusterau'n aml ar gyfer y gymuned gyfan. Mae cyrff llywodraethu'n rheoli'r defnydd o safle'r ysgol y tu allan i oriau ysgol, yn amodol ar y cyfyngiadau y soniwyd amdanynt yn y bennod flaenorol, Rheoli Safleoedd Ysgolion a'r Defnydd Cymunedol Ohonynt.

2. Mae llawer o ysgolion eisoes yn darparu rhai gwasanaethau i'w cymunedau, a mater i gyrff llywodraethu a'r ysgolion – ar y cyd â'u partneriaid – yw datblygu faint bynnag o ddarpariaeth y credant sy'n addas i amgylchiadau eu cymunedau.

3. Er hynny, ni all cyrff llywodraethu ddarparu unrhyw wasanaethau a allai amharu ar eu prif ddyletswydd i addysgu disgyblion, neu eu cyfrifoldeb i hyrwyddo cyrhaeddiad addysgol o'r radd flaenaf yn yr ysgol.

### Beth yw Ysgol Fro?

4. Mae Ysgol Fro yn darparu amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau, y tu hwnt i'r diwrnod ysgol yn aml, er mwyn helpu i ddiwallu anghenion ei disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Mae llawer o ysgolion eisoes yn cynnig rhai gwasanaethau cymunedol ledled Cymru, gan gynnwys addysg i oedolion, cymorth astudio, cyfleusterau TGCh a rhaglenni chwaraeon i'r gymuned.

5. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi paratoi canllawiau ar hyn mewn cylchlythyron, sef Ysgolion Bro (Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif 34/2003) a'r Canllawiau ar gyfer Grant Ysgolion Bro Llywodraeth Cynulliad Cymru (Cylchlythyr Rhif 31/05).

6. Mae datblygiad ysgol fro yn cynnig cyfle i ysgolion a chymunedau gydweithio er lles dyfodol plant, pobl ifanc ac oedolion.

7. Mae ContinYou Cymru wedi cydweithio â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) a Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer ysgolion bro yng Nghymru, ac mae wedi paratoi gwybodaeth i ysgolion a chyrff llywodraethu. Am fwy o wybodaeth, ewch i http://www.continyou.org.uk/what_we_do/work_country/wales.

**Beth sy'n digwydd mewn Ysgol Fro?**

8. Mae ysgol fro yn adeiladu ar wasanaethau a ddarperir eisoes. Nid oes patrwm pendant ar gyfer y mathau o weithgareddau y gellir eu darparu, neu sut y gallant gael eu trefnu.

9. Mae'n bwysig fod yr ysgol yn cydweithio'n agos â'i ALI. Mae ALlau yn gyfrifol am gynllunio cymunedau, ac yn darparu neu'n hwyluso pob math o wasanaethau. Mae'r ALI mewn sefyllfa unigryw o allu rhoi cyngor ar y darpariaethau sydd eisoes ar waith yn ei hardal. Gall gynnig cyngor a llywio'r ysgol i adrannau perthnasol yr awdurdod sy'n arbenigo mewn gwaith datblygu cymunedol neu wasanaethau penodol.

10. Mae Adran 27 o Ddeddf Addysg 2002:

- yn ei gwneud hi'n haws i gyrff llywodraethu ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau sydd o fudd i ddisgyblion, teuluoedd a'r gymuned leol;
- yn rhoi hyblygrwydd i gyrff llywodraethu lunio cytundebau â phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaethau ar safle'r ysgol; ac
- yn caniatáu i gyrff llywodraethu godi tâl am rai gwasanaethau.

11. Waeth pa mor fawr neu fach yw'r ddarpariaeth, mae'n bwysig bod tîm o uwch reolwyr yr ysgol a'r corff llywodraethu yn pennu aelod i fod yn bennaf cyfrifol am y maes arbennig hwnnw er mwyn bwrw ymlaen â gwaith datblygu cymunedol. Ni ddylai unrhyw weithgareddau newydd ychwanegu at lwythi gwaith staff yr ysgol, heb eu caniatâd nhw.

12. Roedd astudiaeth yn 2002 yn dangos fod ysgolion sy'n ymgysylltu â'u cymuned leol yn cael effaith uniongyrchol ar lefelau cyrhaeddiad disgyblion, ac yn codi eu dyheadau i fynd o'r ysgol i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth.

**A fydd Angen i Ysgolion Bro Weithio mewn Ffordd Wahanol?**

13. Mae'n debygol y bydd angen i'r rhan fwyaf o ysgolion gyflwyno rhywfaint o newidiadau i'r ffordd y gweithredant, er enghraifft oriau mwy hyblyg a threfniadau cyllidebu newydd oherwydd bod angen rheoli'r gyllideb gweithgareddau cymunedol ar wahân.

14. Bydd angen i ysgolion weithio mewn partneriaeth â grwpiau ac asiantaethau eraill hefyd. Gall ysgolion uwchradd ystyried cydweithio â'u hysgolion cynradd partner, neu weithio fel clwstwr o ysgolion, gyda phob ysgol yn datblygu gweithgareddau a gwasanaethau gwahanol. Mae gweithio mewn partneriaeth yn sicrhau:

- gweithgareddau tipyn mwy amrywiol sy'n cynnwys rhieni, aelodau'r gymuned a grwpiau lleol, fel cylchoedd chwarae, clybiau chwaraeon a sefydliadau gwirfoddol;
- cynnig gwasanaethau lleol mewn modd cydgysylltiedig, gan gynnwys yr ALl, asiantaethau lleol a phartneriaethau;
- cyfle i ddarparu gwasanaethau sydd angen sgiliau arbenigol, fel gofal iechyd neu wasanaethau cymdeithasol;
- rhaglenni cynaliadwy lle nad yw gweithgareddau na gwasanaethau yn or-ddibynnol ar sgiliau ac amser yr ychydig staff allweddol;
- cyfle i gael gwasanaethau sy'n wahanol i weithgareddau'r ysgol ac y gellir eu cyflwyno fel rhai 'heb athrawon'.

15. Efallai na fydd hi'n bosibl darparu gwasanaethau ar safle'r ysgol bob tro, a hwyrach y bydd ysgolion am ystyried lleoliadau amgen. Am fwy o wybodaeth, gweler y canllawiau.

**Pwy sy'n Gallu Sefydlu Rhaglenni?**

16. Nid oes cyfyngiadau o ran pwy sy'n gallu sefydlu rhaglenni neu wasanaethau. Er hynny, ni chaiff corff llywodraethu ddarparu gwasanaeth a allai amharu ar ei brif ddyletswydd i addysgu disgyblion neu ei gyfrifoldeb i hyrwyddo cyrhaeddiad addysgol o'r radd flaenaf. Mae pob ysgol a chymuned yn cynnwys grwpiau allweddol sydd angen ymgynghori â nhw. Dylent fod yn rhan o'r broses gynllunio i sicrhau bod ysgolion bro wedi'u trefnu'n dda ac yn diwallu anghenion lleol.

17. Gall grwpiau neu bwyllgorau ar wahân yn yr ysgol fod yn gyfrifol am raglenni llai, dan arweiniad llywodraethwyr, penaethiaid, staff ALl neu'r rhieni. Gall yr ysgol ddirprwyo rhaglenni mwy i asiantaethau neu bartneriaethau sy'n bodoli eisoes, fel Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

18. Yn y pen draw, cyfrifoldeb y corff llywodraethu yw penderfynu a ddylai'r ysgol gynnig gweithgareddau a gwasanaethau ychwanegol, a pha fath. Wrth wneud unrhyw benderfyniadau, fodd bynnag, bydd eu dyletswyddau allweddol yn cynnwys:

- sicrhau ffynonellau ariannu ychwanegol ar gyfer mentrau;
- diogelu'r gyllideb ddirprwyedig;
- sicrhau yswiriant addas.

**Trefniadau Diogelu**

19. O dan Ddeddf Addysg 2002, mae'n rhaid i gorff llywodraethu ymgynghori â'r ALl, staff yr ysgol, rhieni disgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol, disgyblion cofrestredig lle bo hynny'n briodol ac unrhyw un arall sy'n briodol yn ôl y corff llywodraethu, cyn darparu unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau cymunedol. Yn amodol ar natur y ddarpariaeth a argymhellir, dylid ystyried ymgynghori â'r gymuned leol, asiantaethau a phartneriaethau perthnasol, undebau athrawon, y cyngor cenedlaethol, busnesau lleol, awdurdodau esgobaethol a sefydliadau gwirfoddol.

20. Rhaid i gorff llywodraethu hefyd gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaethau sy’n rhan o gynllun cyllido ysgolion yr ALl.

21. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad y pŵer i ddiystyru mathau penodol o weithgareddau a all fod yn amhriodol ar safle ysgol. Nid oes bwriad cyflwyno rheoliadau perthnasol ar hyn o bryd.

22. Mae gan ALl y pŵer i atal cyllideb ddirprwyedig yr ysgol:

- os yw’r ALl yn ystyried bod rheolaeth ariannol gwasanaethau cymunedol a ddarperir gan gorff llywodraethu yn anfoddhaol;
- os yw corff llywodraethu’n euog o fethu â chydymffurfio’n sylweddol neu’n barhaus ag unrhyw reolau a bennwyd gan neu o dan gynllun cyllido ysgolion yr ALl.

23. Os yw trydydd parti’n cyflwyno hawliad yn erbyn corff llywodraethu yn ymwneud â darparu gweithgareddau a gwasanaethau cymunedol, mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn cynnwys canllawiau i’r ALl ymdrin â’r hawliad. Ond os oes gan gorff llywodraethu arian yn ei gyllideb gwasanaethau cymunedol, mae’r ALl yn gallu hawlio iawndal gan y corff llywodraethu.

24. Ni all ALl adennill costau gan lywodraethwyr unigol, heblaw dan amgylchiadau eithriadol lle mae llywodraethwyr wedi ymddwyn yn anghyfreithlon neu wedi gweithredu fel unigolion yn hytrach na chorff corfforaethol.

**Pa Fath o Wasanaethau y Gall yr Ysgol eu Darparu?**

25. Bydd ymgynghori’n lleol yn helpu ysgolion â’u partneriaid i gytuno ar ba fath o wasanaethau y dylent eu cynnig i’w disgyblion, eu teuluoedd neu’r gymuned. Gweler isod. Mae rhagor o fanylion yn y cylchlythyr cyfarwyddyd.

26. Dyma rai o’r gwasanaethau allweddol posibl:

- Gofal plant;
- Dysgu gydol oes;
- Darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol;
- Gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon;
- Gwasanaethau Ieuenctid;
- Dysgu y tu allan i oriau;
- Gwasanaethau cymunedol.

27. Mae Deddf Addysg 2002 yn caniatáu i gyrff llywodraethu ysgolion ddarparu gofal plant eu hunain, naill ai mewn partneriaeth ag eraill neu beidio, ar safle’r ysgol. Mae angen i ysgolion gydweithio’n agos â Phartneriaeth Datblygu’r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (EYDCP) yn eu hardal leol i gynllunio gwasanaethau plant. Mewn rhai ardaloedd, mae’r EYDCP yn is-grŵp o Bartneriaeth Plant ehangach, tra bo’r Bartneriaeth Plant ei hun yn gweithredu fel EYDCP mewn ardaloedd eraill.

28. Gall Partneriaethau Plant gynnwys ysgolion mewn mentrau sy’n cynnig cymorth ehangach, fel Cychwyn Cadarn a Chanolfannau Integredig.

29. Mae ysgolion hefyd yn cael eu hannog i gynnig eu gweithgareddau neu eu rhaglenni eu hunain, sy’n adlewyrchu anghenion eu cymunedau lleol.

## Canolfannau Plant Integredig

30. Hoffai Llywodraeth y Cynulliad weld mwy o ganolfannau integredig yn cael eu datblygu fel menter ar y cyd rhwng cymunedau lleol, y sector gwirfoddol, addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

31. Ni ddylai’r canolfannau hyn fod yn adeiladau unigol, ond yn rhan o raglen o wasanaethau plant integredig. Dylent fod yn ganolfannau aml bwrpas ac amlasiantaeth, sy’n cysylltu rhwydwaith o ddarparwyr fel grwpiau rhieni a phlant bach, cylchoedd chwarae, gwarchodwyr plant, clybiau y tu allan i oriau ysgol, meysydd chwarae antur a gweithgareddau hamdden eraill i bobl ifanc, sy’n cynnig sgiliau ac yn cyfoethogi plant, teuluoedd a chymunedau. Dylent hefyd gynnwys darpariaeth addysg rhan - amser i blant 3 oed fel rhan bwysig o’r rhwydwaith. Gellir cysylltu â gwasanaethau fel cylchoedd chwarae, gwarchodwyr plant a gofalwyr anffurfiol, a’u cefnogi mewn safleoedd allgymorth a thrwy raglenni hyfforddi amlddisgyblaeth.

32. Gall gweithgareddau eraill gynnwys cefnogi rhianta a chanolfan i weithwyr iechyd. Dylai’r rhwydwaith o wasanaethau mewn canolfan adeiladu a gwella ar y ddarpariaeth sy’n bodoli eisoes, ac ar gryfderau grwpiau cymunedol. Gall problemau trafnidiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, olygu mai cyfran eithaf bach o’r rhwydwaith o wasanaethau cyffredinol yw gweithgareddau’r ganolfan. Mewn rhai ardaloedd, mae asiantaethau’n gweithio mewn partneriaeth – dan arweiniad gwasanaethau cymdeithasol neu wedi’u comisiynu ganddynt - i gynnig canolfannau plant neu deuluoedd sy’n cydweithio â theuluoedd lle mae mater amddiffyn plant yn broblem sylweddol, a hynny'n aml trwy atgyfeiriad. Gellir ystyried y canolfannau hyn fel rhai sy’n cyfrannu at rwydwaith lleol sy’n darparu elfen arbenigol, naill ai’n unigol neu fel rhan o ddarpariaeth ehangach i’r gymuned leol.

33. Bydd Canolfan Blant Integredig yn cynnwys:

- Darpariaeth addysg y blynyddoedd cynnar o’r radd flaenaf;
- Gwasanaethau cymorth gofal plant i blant a’u teuluoedd;
- Cymorth i blant ag anghenion arbennig;
- Darpariaeth addysg i oedolion, cefnogi rhianta a thimau addysg gymunedol;
- Timau amlasiantaeth o’r gwasanaethau iechyd, addysg a phlant;
- Darpariaeth dydd/blwyddyn estynedig ar gyfer gofal plant a chymorth i deuluoedd;
- Lle chwarae agored;

- Clybiau brecwast ac ar ôl ysgol;
- Clybiau gwyliau.

Bydd yr union wasanaethau i'w darparu mewn unrhyw ganolfan rwydwaith yn dibynnu ar amgylchiadau lleol. Gall ysgolion bro gynnal gwasanaethau amlddisgyblaeth i blant y fro.

### Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) – Cofrestru ac Arolygu Cyfleusterau Gofal Plant

34. Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn cofrestru ac yn arolygu gofal a ddarperir i blant o dan wyth oed am dros 2 awr y dydd, ac am 6 neu fwy o ddiwrnodau'r flwyddyn. Mae hyn yn berthnasol lle mai prif ddiben gofal dydd yw gofalu am blant, a hynny am reswm ar wahân i roi addysg iddynt. Felly, bydd darpariaethau nad ydynt yn rhan o swyddogaeth addysgol diwrnod ysgol arferol, fel clybiau brecwast neu glybiau ar ôl ysgol, yn rhan o'r gofynion cofrestru.

35. Cyflwynwyd trefn newydd yn Lloegr yn sgil Deddf Gofal Plant 2006 a oedd yn cynnwys cofrestru darparwyr gofal plant; ond ni newidiodd y sefyllfa yng Nghymru. Yn hytrach, mae Deddf Plant 1989 a Deddf Safonau Gofal 2000 yn berthnasol yng Nghymru o hyd, sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer cofrestru darparwyr gofal dydd a gwarchodwyr plant.

### Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 a Gwasanaethau Estynedig

36. O dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (DDA), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005, mae gan ysgolion ddyletswyddau o dan Ran 2 fel cyflogwyr, o dan Ran 3 fel darparwyr gwasanaethau (ac fel awdurdodau cyhoeddus maes o law) ac o dan Ran 4 fel darparwyr addysg. Pan fo llywodraethwyr ysgolion estynedig yn darparu gwasanaethau estynedig, bydd angen iddynt sicrhau pa ran o'r Ddeddf sy'n berthnasol ac sy'n dylanwadu ar eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau tuag at ddisgyblion anabl, defnyddwyr y gwasanaethau hyn neu weithwyr cyflogedig. Mae'n bosibl y gall cyfrifoldebau'r llywodraethwyr newid yn ôl pa fath o wasanaeth sy'n cael ei gyflwyno, pam mae'n cael ei gyflwyno, ac i bwy.

37. Os yw gwasanaethau'n cael eu darparu gan drydydd partïon ar safle'r ysgol, naill ai ar wahân i'r ysgol neu ar ran yr ysgol, bydd angen i'r llywodraethwyr bennu pwy fydd yn cael ei ystyried yn ddarparwr gwasanaeth o dan y Ddeddf DDA, sydd â'r cyfrifoldeb i wneud “addasiadau rhesymol” a/neu welliannau i fynediad. Bydd hyn yn sicrhau nad oes neb yn gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl wrth iddynt geisio defnyddio'r gwasanaeth dan sylw. Mae'n gallu bod yn faes cymhleth iawn yn gyfreithiol, ac efallai y byddai'n ddoeth i lywodraethwyr gael cyngor arbenigol arno.

# Y Gyfraith

Deddf Addysg 2002; Adrannau 27 a 28
Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (DDA)
Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005
Deddf Plant 1989

## Canllawiau

Ysgolion Bro – Cylchlythyr 34/2003
http://new.wales.gov.uk/publications/circular/circulars03/NAFWC342003?skip=1&lang=cy
Canllawiau ar gyfer Grant Ysgolion Bro Llywodraeth Cynulliad Cymru – Cylchlythyr 31/05 Cynulliad Cenedlaethol Cymru
http://new.wales.gov.uk/publications/circular/circulars05/1560276/?skip=1&lang=cy

Rheoliadau Gofal Dydd (Cymhwyso i Ysgolion) (Cymru) 2005 (OS 2005/118)